Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

6 Rhagfyr 2010

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Dathlu Llwyddiannau Staff

Cafodd cyfraniad staff a gwirfoddolwyr i waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei gydnabod mewn seremoni arbennig.

Roedd y Gwobrau Cyrhaeddiad blynyddol cyntaf yn cydnabod cyfraniad ac ymrwymiad staff a gwirfoddolwyr ar draws Gogledd Cymru.

Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Pleser pur oedd cael cydnabod ein cydweithwyr sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i bobl Gogledd Cymru. Rydym yn cydnabod mai ein hadnodd gorau ydy'r bobl sy'n gweithio yn ein Bwrdd Iechyd fel staff neu wirfoddolwyr. Rydym yn falch iawn o gymryd y cyfle yma i ddathlu eu hymrwymiad, eu hegni a'u rhagoriaeth."

Roedd deuddeg categori i gyd, a cheir manylion yr enillwyr isod:

Tystiolaeth i Arferion

Mae Prif Nyrsys Janet Lloyd Jones a Nicky Roberts o Ysbyty Glan Clwyd, ynghyd â'u staff a'u cleifion wedi datblygu Log Crynhoi Bwriadol i fesur a chofnodi cyfforddusrwydd cleifion.

Mae'r pecyn yn cynnwys archwilio'r croen, safle'r claf, mynediad at y gloch ac mae'n gwella cyfathrebu rhwng cleifion, perthnasau a staff.

Cyfraniad Mwyaf Eithriadol i Wella Bywydau Cleifion

Mae Peter Edwards, Ffisiotherapydd o Abergele yn darparu gwasanaeth arbennig i'w gleifion yn adran cleifion allanol ac ar y wardiau yn Ysbyty Cymuned Bae Colwyn

Mae ganddo amynedd a goddefgarwch parhaus gyda'i gleientiaid, llawer ohonynt yn dioddef o gyflyrau cymhleth megis Sglerosis Gwasgaredig a Strôc. Mae Peter bob amser yn llon a siriol ac mae ganddo'r ddawn o gyfathrebu efo a thrin achosion amrywiol iawn.

Gwella Diogelwch Cleifion

Mae staff gweinyddol Uned Llygaid HM Stanley yn enillwyr teilwng yn y categori yma. Mae'r tîm yn ymdrin â dros 44,000 o gleifion allanol a 5,000 o gleifion mewnol y flwyddyn, yn cynnwys cleifion sydd â chyflyrau sy'n peryglu eu golwg.

Gan fod gwaith offthalmoleg wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r staff gweinyddol wedi ymateb i'r her ac mae eu hymrwymiad a'u gwaith caled wedi chwarae rhan allweddol mewn cadw a hyd yn oed gwella golwg llawer o gleifion ar draws Gogledd Cymru.

Gwasanaethu Gofal Iechyd Dwyieithog

Mae Nyrs Staff Sali Burns a Dr Elin Walker-Jones, Seicolegydd Clinigol yn llwyr ymroddedig i'r Gymraeg a bu hyn yn un o'r prif ffactorau i sicrhau fod y Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru i gyd yn eiddigeddus o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran ei allu i gynnig gwasanaeth gofal iechyd dwyieithog i'r cyhoedd a chleifion.

Maent yn cynnig cymorth ac arweiniad i fynd â Grŵp Rhaglen Glinigol (GRhG) Iechyd Meddwl yn ei flaen, gan alluogi gwasanaethau i ymgysylltu â chymunedau Cymraeg. Gan fod y ddwy o gefndiroedd Cymraeg, maent yn adnabod a deall cymunedau Cymraeg. Ar hyn o bryd maen nhw'n datblygu bas data o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y GRhG, fydd yn galluogi'r gwasanaeth i gyfeirio a phenodi staff sy'n siarad Cymraeg i gleifion Cymraeg.

Cyfraniad i'r Gymuned Ehangach

Enwebwyd Mr Asad Syed, Meddyg Ymgynghorol mewn Orthopaedeg a Thrawma yn Ysbyty Maelor Wrecsam am y wobr hon am ei waith caled a'i ymrwymiad fel rhan o'r Elusen dan Arweiniad Meddygon Ymgynghorol y GIG, UK MED. Mae'r elusen yn gwneud llawdriniaethau i achub cymalau ac ymyriadau sy'n achub bywydau mewn rhannau o'r byd a effeithiwyd gan drychinebau.

Mae Mr Syed wedi trin dioddefwyr yn naeargryn Kashmir yn 2005, daeargryn Sumatra, Indonesia (2007), daeargryn China yn 2008 ac roedd yn un o'r llawfeddygon a gasglodd offer ac arwain yr ymyriadau orthopaedeg yn naeargryn Haiti yn 2010.

Cyfraniad Gwirfoddol Eithriadol

Mae Lian Lynch yn wirfoddolwr efo'r Gwasanaeth Caplaniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Yn garedig iawn, mae hi'n rhoi llawer iawn o'i hamser ac arbenigedd i roi cefnogaeth gynghori gwych i gleifion a staff.

Hi oedd yr ysgogiad pennaf y tu ôl i Wasanaeth Bod yn Gyfaill yr Uned Arennol yn Ysbyty Gwynedd. Yn ystod digwyddiadau anhygoel, mae Lian wedi dangos ymrwymiad hollol anhunanol i'w gwaith gwirfoddol, sy'n ysbrydoliaeth i'r rhai sy'n ei hadnabod.

Gwobr Haydn Hughes

Mae Keir Harding o Dîm Iechyd Meddwl Cymuned Glannau Dyfrdwy wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'w dîm ac i'r Bwrdd Iechyd yn gyffredinol ac ef oedd y prif ysgogiad y tu ôl i'r grŵp Taith, a gafodd gydnabyddiaeth genedlaethol am eu gwaith efo cleientiaid ag anhwylderau personoliaeth.

Mae Keir wedi gweithio'n ddiwyd a chreadigol i gefnogi staff sy'n gweithio efo ac yn gwella gwasanaethau i gleientiaid, sy'n cynnwys Grŵp Sgiliau Ymdopi a Sesiynau Cefnogi Anhwylder Personoliaeth ac yn bwysicach fyth, ei waith efo Taith.

Rhagoriaeth mewn Arweiniad

Anwen Naylor ydy Rheolwr Tîm Nyrsio'r Gwasanaeth Arbenigol Datblygiad Plant ym Mryn Seiont, Caernarfon. Yn ystod ei gwaith o ddydd i ddydd, teimlai Anwen fod angen i'r gwasanaeth ddynodi ymddygiad heriol o fewn ei grŵp cleientiaid. Tynnodd sylw at yr angen am fwy o hyfforddiant ffurfiol yn y maes yma, a'i harweiniodd i weithio efo gweithwyr proffesiynol o Brifysgol Bangor. Arweiniodd y gwaith yma at ddatblygu modiwlau Diploma mewn meysydd fel Agweddau Cadarnhaol tuag at Ymddygiad Heriol a Gweithio efo Plant Anabl a'u teuluoedd.

Mae Anwen hefyd wedi datblygu ei thîm, sy'n cynnwys Nyrsys Plant a Nyrsys Anableddau Dysgu.

Ffyrdd Newydd o Weithio

Enwebwyd Marianne Walmsley a Sharon Jones o Ynys Môn am eu cyfraniad ardderchog i'r Prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio llwyddiannus iawn a Pheilot y DU, 'Cynllun Cymhwysedd'. Roedd y prosiect yn cynnwys ailgynllunio swyddi a sefydlu cymhwysedd yn y tîm gofal iechyd, a ddefnyddiwyd i ailgynllunio'r cwricwlwm ar gyfer addysg yn y dyfodol.

Yn ogystal, roedd hefyd yn canolbwyntio ar leihau'r galw am wasanaethau yn yr ysbyty trwy gynnig mwy o ofal yn y cartref ac yn y gymuned.

Gweithio mewn Partneriaeth

Roedd y Tîm Gwasanaeth Cyswllt Cyfiawnder Troseddol ym Mae Colwyn yn enillwyr teilwng yn y categori yma. Roeddynt yn rhan o sefydlu'r Grŵp Iechyd Meddwl Cyfiawnder Troseddol, grŵp aml asiantaethol sy'n gyswllt rhwng iechyd a'r systemau cyfiawnder troseddol. Ffurfiwyd cysylltiadau ardderchog gyda'r carchardai lleol, gan wella cydlyniant gofal yn fawr i'r rhai sy'n dod o'r carchar.

Gan fod eu canolfan yn swyddfeydd y Gwasanaeth Prawf, mae'r tîm wedi gallu datblygu systemau i wella mynediad unigolion sy'n rhan o'r broses cyfiawnder troseddol at wasanaethau iechyd meddwl.

Gwobr Dr E C Benn

Mae'r wobr yma a noddir, yn cydnabod cyflawniad proffesiynol hir.

Mae Dr Dawn Wimpory yn Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol sy'n arbenigo mewn gweithio efo plant ag awtistiaeth ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistaidd.

Yn ystod ei gyrfa, mae Dr Wimpory wedi rhoi hyfforddiant, goruchwyliaeth ac ymgynghoriadau di-ben-draw i staff yn gweithio mewn gwasanaethau plant, wedi darparu gwasanaeth diagnostig a therapiwtig o safon uchel i deuluoedd plant ag awtistiaeth ac wedi cynnal ymchwil ym maes awtistiaeth sydd â bri rhyngwladol.

Gwobr Hyrwyddo Cydraddoldeb

Oherwydd y rhagfarn mae rhai cleifion â HIV yn ei ddioddef mewn cymunedau gweledig a chlos yng Ngogledd Cymru, datblygodd Dr Andrady, Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Genido-droethol a Val Anderson, Nyrs Arbenigol HIV yn Ysbyty Gwynedd holiadur 'Hyrwyddo Cydraddoldeb a Thegwch i Bobl â HIV neu AIDS o fewn Gofal Iechyd'.

Roedd yr holiadur ar gyfer cleifion oedd yn mynychu'r clinig HIV i ddechrau, a defnyddir y canlyniadau i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o HIV/AIDS ymysg staff sy'n dod i gysylltiad â chleifion HIV positif mewn gofal iechyd.

DIWEDD

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Helen Granton 01248 384939
Trystan Pritchard 01248 384938

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

6 December 2010

Betsi Cadwaladr University Health Board Celebrates High Achievers

The contribution of staff and volunteers to the work of the Betsi Cadwaladr University Health Board has been recognised with a special awards ceremony.

The inaugural annual Achievement Awards recognised the contribution and commitment of staff and volunteers across North Wales.

Mary Burrows, Chief Executive of the Betsi Cadwaladr University Health Board said: "It was a great pleasure to acknowledge our colleagues who have made a special contribution to the services we deliver to the people of North Wales. We recognise that our greatest resource is the people who work within our Health Board as staff or volunteers. We are delighted to take this opportunity to celebrate their commitment, energy and excellence."

There were twelve categories in total with the winners detailed below:

Evidence into Practice

Sisters Janet Lloyd Jones and Nicky Roberts from Ysbyty Glan Clwyd, along with their staff and patients have developed an Intentional Rounding Log, which is a tool which measures and charts patients comfort.

The tool includes skin inspections, positioning of the patients, accessibility to the call bell and enhances communication with patients, relatives and staff.

Most Outstanding Contribution to Improving the Life of Patients

Peter Edwards, a Physiotherapist from Abergele delivers a faultless service to his patients in the outpatient department and on the wards of Colwyn Bay Community Hospital.

He constantly demonstrates patience and understanding with his clients, many of whom have complex conditions such as Multiple Sclerosis and Stroke. Peter is always bright, cheerful and demonstrates skill in communicating with and treating a very varied caseload.

Improving Patient Safety

The administrative staff from the HM Stanley Eye Unit are worthy winners of this category. The team deal with over 44,000 outpatients and 5,000 inpatients per year and include patients with sight threatening eye conditions.

As ophthalmology practice has changed drastically over the last few years, the administrative staff have risen to the challenge and their dedication and hard work has played a vital part in preserving and indeed improving the sight of many patients from across North Wales.

Services to Bilingual Healthcare

Staff Nurse Sali Burns and Dr Elin Walker-Jones a Clinical Psychologist have a passion for the Welsh language and this has been a major factor in ensuring that the Betsi Cadwaladr University Health Board is the envy of other Health Board in Wales in terms of its ability to provide the public and patients with a bilingual healthcare service.

They offer assistance and guidance to lead the Mental Health Clinical Programme Group (CPG) forward, enabling services to engage with Welsh speaking communities. Coming from Welsh backgrounds, both deeply recognise and empathise with Welsh speaking communities. They are currently developing a database of Welsh speaking staff within the CPG, which will enable the service to direct and appoint Welsh speaking staff to Welsh speaking patients.

Contribution to the Wider Community

Mr Asad Syed, a Consultant in Orthopaedics and Trauma in Wrexham Maelor Hosptial was nominated for this award for his diligence and extreme dedication as part of the NHS Consultant-led Charity UK MED. This Charity performs limb salvage surgery and life saving interventions in international disaster zones.

Mr Syed has operated on victims in the Kashmir earthquake of 2005, Indonesian earthquake in Sumatra in 2007, the China earthquake in 2008 and was one of the surgeons who collected equipment and led the orthopaedic interventions in the Haiti earthquake of 2010.

Outstanding Voluntary Contribution

Lian Lynch is a volunteer within the Chaplaincy Service at Ysbyty Gwynedd. She generously devotes large amounts of her time and expertise to provide a tremendous source of counselling support to patients and staff.

She has been the driving force behind the development of the Renal Unit Befriending Service in Ysbyty Gwynedd. During extra-ordinary events, Lian has demonstrated a totally selfless committment to her voluntary work, which is an inspiration to those who know her.

Haydn Hughes Award

Keir Harding from the Deeside Community Mental Health Team has made a substantial contribution to his team and to the Health Board in general and has been the driving force behind the group Taith, who have achieved national recognition for their work with clients with peronality disorders.

Keir has worked diligently and creatively to support staff in working with and improving services available to clients, which include a Coping Skills Group, Personality Disorder (PD) Support Sessions and more importantly, his work with Taith.

Excellence in Leadership

Anwen Naylor, is the Nurse Team Manager for the Child Development Specialist Children's Service based in Bryn Seiont, Caernarfon. During her day to day role, Anwen felt that there was a need for the service to identify challenging behaviours within her client group. She highlighted the need for more formal training in this area which led to her working with professionals from Bangor University. This work culminated in various Diploma modules being developed such as Positive Approaches to Challenging Behaviour and Working with Disabled Children and their families.

Anwen has also developed her team, which includes Children's Nurses and Learning Disability Nurses

New Ways of Working

Marianne Walmsley and Sharon Jones, both from Anglesey were nominated for their excellent contribution to moving forward the hugely successful New Ways of Working Project and the UK Pilot 'Designed for Competence'. This project involved

redesigning roles within the healthcare team and establishing competences which were used to redesign the future cirriculum for education provision.

In addition, it also focussed on reducing demand on hospital based services, providing more care within the home and community setting.

Working in Partnership

The Criminal Justice Liaison Team based in Colwyn Bay were worthy winners of this category. They were involved in establishing the Criminal Justice Mental Health Group which is a multi-agency group which provides an interface between health and criminal justice systems. Excellent working relations have been formed with local catchment area prisons and effective care co-ordination for prison leavers is much improved as a result.

Ths use of co-location within Probation Service offices has enabled the team to develop seamless systems which significantly improve the access to mental health services for individuals involved in a criminal justice process,

Dr E C Benn Award

This sponsored award recognises longstanding professional achievement.

Dr Dawn Wimpory is a Consultant Clinical Psychologist and specialises in working with children with autism and autistic spectrum disorders.

During her career, Dr Wimpory has provided supervision, training and consultation to countless staff working in children's services, provided a high quality diagnostic and therapeutic service to families of children with autism and carried out internationally renowned research in the field of autism.

Advancing Equality Award

Due to the stigma experienced by some patients with HIV living in rural and close knit communities in North Wales, Dr Andrady, Consultant in Genito-Urinary Medicine and Val Anderson, HIV Specialist Nurse at Ysbyty Gwynedd developed a questionnaire 'Promoting Equality and Fairness for People with HIV or AIDS within a Healthcare Setting'.

The questionnaire was initially for patients attending the HIV clinic and the findings will be used to train and raise awareness of HIV/AIDS for staff who come into contact with HIV positive patients within healthcare settings.

For further information please contact:
Helen Granton 01248 384939
Trystan Pritchard 01248 384938